

Tynged yr Iaith Sir Gâr: Cynlunio Dyfodol ein Cymunedau Nodiadau grwpiau trafod

Nodiadau grŵp Cefin Campbell

Llanpumsaint: Nid datblygiadau tai mawr yw'r broblem. Datblygwr lleol yn codi 2-3 tŷ y flwyddyn. Tai yma'n rhai drud. Hefyd, datblygwr yn prynu tai sydd mewn cyflwr gwael a'u hadnewyddu er mwyn eu gwerthu am bris uchel. Dim ond mewnfudwyr sy'n medru fforddio'r tai yma. Pentref wedi Seisnigo a'r teimlad bod yna ddwy gymuned – yr expats a'r Cymry Cymraeg. Bwrlwm yn y pentref ond ychydig iawn o gydymwneud sydd yna rhwng y ddwy gymuned.

Llangyndeyrn: Eto, nid stadau tai yw'r broblem ond y farchnad dai. Bron yn ddieithriad caiff y stoc dai eu prynu gan bobl ddwad. Ddim yn bentref ddigon mawr i gynnal dwy gymuned neu gwahanol weithgaredd. Felly gweithgareddau'n ddwyieithog gyda'r peryg bod popeth yn troi i'r Saesneg.

Llanybydder: er bod yna gyflogwr mawr, mae'r Cymry Cymraeg yn heneiddio. Nid yw'r tai cyngor yn cael eu gosod i bobl leol.

Porthyrhyd: nodwyd mai'r pwynt troi neu Tipping point yn 2014 i bob ward oedd 70%. Roedd ward Llanddarog o dan 70%. Ond, gwnaethpwyd arolwg gan drigolion Porthyrhyd oedd yn dangos fod y ffigwr yn uwch. Stadau tai 3 llawr yno – rhai'n anorffenedig ac yn amhosib eu gwerthu. Nid pobl leol sy'n eu prynu.

Llanfihangel-ar-arth: Codwyd byngalos i'r henoed ond caewyd yr ysgol ac orherwydd hynny collwyd nifer o wasanaethau'r pentref. Gwneud yn anodd i'r henoed fyw yno heb wasanaethau hanfodol. Hefyd, asiantaethau'n gyfrifol am rentu tai preifat – rhain yn cael eu gosod i bobl ddwad.

Bancffosfelen: y Cyngor wedi rhoi caniatad i ddatblygiad o 80 o dai a 40 o dai yn y pentref, heb fesur y galw'n lleol. Hefyd, adran arall o'r Cyngor yn ystyried cau ysgol y pentref.

Gelli Aur: eto, nid stadau tai yw'r broblem. Dim ond 6 tŷ godwyd yno'n ystod y blynyddoedd diwethaf. Y farchnad dai yw'r broblem a'r ardal wedi Seisnigo'n llwyr. Caiff pob tyddyn ei brynu gan mewnfudwyr. Dim diffyg swyddi yw'r broblem chwaith gan bod y pentref yn agos i Cross Hands. Y mewnfudwyr ar y cyfan ddim yn dangos diddordeb yn yr iaith.

Nodwyd bod angen golwg facro ar gynllunio o safbwynt yr iaith Gymraeg. Erbyn hyn dylid edrych ar Sir Caerfyrddin gyfan fel ardal sensitif yn ieithyddol.

Angen dadansoddiad mwy soffistigedig o anghenion cymunedau'r Sir. Ar hyn o bryd, mae'r holl bolisiau'n rhagfarnu o blaid ardaloedd trefol. Y pentrefi'n dioddef – dim unedau pobl ifanc mewn pentrefi, trafnidiaeth i alluogi pobl i gyrraedd y gwaith o'r pentrefi'n ddiffygiol. Pwyslais ar ardaloedd twf ar draul cymunedau eraill.

Pa effaith gaiff y datblygiadau ym Mae Aberatwe ar Sir Gaerfyrddin? Fydd y buddion a'r effaith economaidd yn cyrraedd gogledd y Sir neu'n gorffen o gwmpas Cross Hands?

Angen dirfawr am:

Ddatblygu gwledig: strategaeth economaidd wledig, stadau diwydiannol llai, galluogi cymunedau i fod yn hunangynhaliol, sicrhau nad yw sgiliau cefn gwlad yn cael eu colli (ee melinau gwlan).

I'r Cyngor weithredu fel asiantaeth dai – gan roi blaenoriaeth i bobl leol wrth osod tai preifat a thai cyngor.

Astudiaethau lleol – o niferoedd o siaradwyr Cymraeg, anghenion tai

Nodiadau grŵp Callum Higgins

Trafodaeth wedi agor gyda Callum yn sôn am ei brofiad fel aelod o'r gweithgor cynllunio ac yn gynghorydd yn ardal Tygroes:

Sustem gynllunio - mae nodi gwrthwynebiad yn gymhleth; trigolion ddim yn deall ac yn teimlo bod y datblygwyr yn ennill bob tro ac yn meddwl nad oes modd gwrthwynebu datblygiadau lleol. Wardie fel Tygroes wedi gweld lleihad yn siaradwyr Cymraeg er nad oes datblygiadau wedi digwydd chwaith.

Os yw'r cynllunio yn dod o'r gymuned byddai mwy o ffydd yn y sustem.

Profiad rhywun sy'n byw ym Mrechfa:

Gweithio mewn coedwigaeth ond does dim gwaith lleol ac felly'n teithio dros y byd. Yn Ffrainc mae 36,000 o gynghorau lleol sydd â'r un statws â Chyngor Sir Gâr. Pob cyngor yn Ffrainc â menter gydweithredol sy'n penderfynu ar dreth leol; perchen melinau gwynt â'r elw nôl i'r gymuned; pob Cyngor â menter gydweithredol.

Teimlad bod Cyngor Sir Gâr rhy bell oddi wrth rhai ardaloedd a ddim yn gwybod digon am gefn gwlad.

Gallai Brechfa wneud y tro â chwpl o dai newydd; adeiladau ar gyfer busnesau bach/lleol.

Demography yn newid – pobl yn heneiddio a llai o bobl ifanc. Angen mwy o dai yng nghefn gwlad er mwyn i bobl ifanc ddod nôl/aros i gadw'r iaith yn y gymuned.

Problem diffyg gwybodaeth am Gymru yn Lloegr – hyd yn oed pobl wedi cael eu haddysg yng Nghymru ddim yn gallu ynganu enwe Cymraeg lleol yn iawn.

Codi ymwybyddiaeth am Gymru yn Lloegr – rhai yn dysgu Cymraeg cyn dod i Gymru.

Angen mwy o bobl yng nghefn gwlad.

A bod 'Dyfodol i'r Iaith' wedi codi nifer o gwestiynau gyda Llinos Quelch ac mae hi wedi ymateb (roedd copïau o'r cwestiynau ac ymatebion ar gael).

Mae ymchwil Dr Dylan Phillips a gomisiynwyd gan y Cyngor Sir yn dangos nad yw'r boblogaeth yn codi - mae mwy o bobl yn marw 'na geni ac mae tai gwag yn y Sir. Ond mae mewnfudo o bobl tu fas i Gymru wedi digwydd.

Nodwyd perthynas hynny â'r gostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg a'r pryder dirfawr am effaith y CDLI ar hynny - gyda 15,000 o dai ychwanegol i fod yn wreiddiol. Ofer fyddai'r 73 argymhelliad i gynyddu'r siaradwyr Cymraeg sydd gan y Cyngor Sir os byddai 15,000 o dai ychwanegol yn cael eu codi

Teimlwyd nad oedd yr Arolygydd yn derbyn bod cyswllt rhwng mewnfudo/iaith a datblygiadau tai.

Er hynny mae gobaith nawr y bydd adroddiad Dylan Phillip ar gael fel tystiolaeth wrth drafod y CDLI nesaf.

Gall Cynghorwyr cefn gwlad yn arbennig gynorthwyo'r Cyngor i roi gwybodaeth am yr anghenion yn eu hardaloedd ac yn gallu bwydo mewn i ymgynghoriadau.

Yng nghefn gwlad - dim ond tir amaethyddol sydd yno, sy'n anodd adeiladu tai newydd - y Cyngor yn gobeithio gallu trafod gyda pherchnogion tir i gael pris rhatach ar gyfer y gymuned. Am bris fflat yn Guildford gellir prynu tŷ yn Sir Gâr.

Gofid bod yr Arolygiaeth yn 'Brydeinig' a bod angen arolygiaeth i Gymru sy'n deall y sefyllfa'n well. E.e. mae'r Cyngor yn nodi ardal gyda 40% o siaradwyr Cymraeg fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol ond yr arolygiaeth yn dweud 60% - dylai Sir Gâr i gyd, bellach, fod yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol.

Soniwyd am sefyllfa Porthyrhyd - maen nhw'n dod o dan yr un ward â Llanddarog a Llanarthne sy'n gostwng y ganran sy'n siarad Cymraeg, ond profodd tair o drigolion Porthyrhyd bod 75% o'r trigolion yn siarad/deall Cymraeg. 7 mlynedd yn ôl, ar ôl brwydr hir, fe lwyddwyd i atal 188 tŷ i gael ei adeiladu yn y pentre'.

Roedd caniatâd cynllunio i adeiladu 11 byngalo (addas ar gyfer pobl hŷn) ym Mhorthyrhyd ond adeiladwyd tai mawr anaddas i bentref - ac maen nhw'n wag, yn methu cael eu gwerthu.

Sefyllfa'n annheg – hawl da'r datblygwyr i apelio ond dim hawl 'da'r trigolion i apelio

Syniadau eraill a drafodwyd:

angen gwaith i ddenu'r bobl ifainc

adeiladu mwy o gartrefi henoed i ryddhau tai i bobl ifainc

pobl leol â gwybodaeth am yr ardal - e.e. pa dir sy'n cal llifogydd

wrth gynllunio, angen edrych ar yr ardal gyfan a sut mae'n newid pentre'/ardal

posibiliadau, wrth wrthwynebu datblygiad, yw cael y 'mewnfudwyr' hefyd i gytuno falle nid o safbwynt yr iaith ond o safbwynt bod y pentre' bach yn troi mewn i le rhy fawr ddim yn 'quaint Welsh village' wedyn!

Nodiadau grŵp Mair Stephens

Dim cynnydd mewnfudo yn Sir Gâr – poblogaeth statig ers blynyddoedd.

2,500 o dai segur yn y Sir.

Llandeilo – dim llawer o dai newydd, ond mewnfudo o Loegr. Siopau a thai drud.

Porthyrhyd – tai mawr, gwag, angen mwy o dai llai o faint – mwy addas i bobl ifanc a phobl hŷn.

Cross Hands – mewnfudwyr di-Gymraeg yn cwyno bod dim byd yn digwydd, ond capeli a chlybiau yn digwydd yn Gymraeg, ond dim diddordeb ganddynt i fynd yno.

Pwysig denu'r di-Gymraeg i ddigwyddiadau Cymraeg i'w cymhathu, ond angen sicrhau bod hynny ddim yn troi'r clwb / gweithgaredd o fod yn Gymraeg i Saesneg.

Her fwyaf i gymunedau Cymraeg yw annog mewnfudwyr i ddysgu'r Gymraeg.

Llawer o mewnfudwyr ddim yn gwybod am y cyfleusterau / gwersi i ddysgu Cymraeg, e.e. apps. Mae cyfle i'r Cyngor hysbysebu mwy.

Canolfannau trochi. Un yn arfer bod yng Nghwm Gwendraeth ond wedi cau achos toriadau.

Awgrym bod ysgolion yn cael mwy o adnoddau i gynnal canolfan yn rhan o'r ysgol, yn hytrach na bod plant yn mynd allan o'r ysgol am dymor. Cyfle i aelodau o'r gymuned sy'n siarad Cymraeg wirfoddoli i fynd mewn i'r ysgol i helpu – cysylltu'r ysgol â'r gymuned hefyd.

Wrth bod tai ar werth dylai asiantaethau tai nodi bod y tŷ mewn ardal Gymraeg. Gallai hyn wneud y tai yn anos i'w gwerthu, ond hefyd haws i bobl sydd eisiau byw mewn ardal Gymraeg ddod o hyd i dŷ.

Mae modd gwrthod ceisiadau cynllunio achos ystlumod – angen rheolau tebyg ynghylch yr effaith ar y Gymraeg.

Cadw enwau tai a strydoedd - dylai'r Cyngor gael polisi i atal newid enwau i atal Seisnigeiddio.